DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

## Practis Deintyddol Beaufort Park

2 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN: 978-1-4734-6483-4

## Cynnwys

1.Cyflwyniad ....2

2.Cyd-destun ....3

3.Crynodeb ....4

4.Canfyddiadau ....5

Ansawdd Profiad y Claf ....5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ....7

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ....10

5.Y Camau Nesaf ....11

6.Methodoleg ....12

Atodiad A ....14

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio’n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Beaufort Park yn Uned 1, Beaufort Way, Thornwell, Cas-gwent ar 2 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Beaufort Park yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Beaufort Park yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Cas-gwent, Sir Fynwy. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Beaufort Park yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys chwe deintydd, ac un ohonynt yn berchen ar y practis, dau hylenydd, pedwar therapydd deintyddol, wyth nyrs ddeintyddol, pedwar derbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat, gan gynnwys gwasanaethau gofal cartref achlysurol os gofynnir amdanynt.

## 3. Crynodeb

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Gwelsom y staff yn bod yn gwrtais a chymwynasgar gyda'r cleifion. Roedd gan y practis system ar gyfer ceisio ac adolygu adborth gan gleifion.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth oedd yn cadarnhau bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Rydym wedi gofyn am weld y cynllun gwella dadheintio.

Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y system o storio a chadw cofnod o gyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys yn dda iawn. Gwnaethom argymell y dylai'r practis benodi person cymorth cyntaf ac y dylai'r staff ddiweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf. Bydd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion agored i niwed erbyn diwedd mis Mawrth 2016.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod eu bod yn ddigon manwl.

Canfuom fod gan y practis ddisgwyliadau eglur iawn o ran atebolrwydd a rheolaeth. Roedd perchennog y practis a rheolwr y practis yn rhannu'r rôl o arwain a rheoli. Roedd ffyrdd cyswllt da rhwng yr aelodau staff a dosrannwyd tasgau mewn modd priodol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n rheolaidd.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion.Mynegodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad fod tîm y practis wedi rhoi croeso cynnes iddynt ac roeddent yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 26 holiadur cyn yr arolygiad, a chwblhawyd pedwar ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "*Hapus iawn gyda'r gwasanaeth proffesiynol a chyfeillgar"*
>
> "*Popeth baswn i moyn o bractis deintyddol modern"*
>
> "*Wastad wedi ffeindio bod y staff yn hynod o gymwynasgar"*
>
> "*Nerfus iawn am fynd at y deintydd ond rwy wedi ymlacio'n llwyr yn y practis hwn"*

*Gofal gydag urddas*

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd taflen yn disgrifio'r practis ar gael ar gyfer y cleifion ac roedd gan y practis wefan. Golygodd hyn fod gan y cleifion fynediad at wybodaeth berthnasol, mewn amryw ddiwygiau. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaeth yn y mannau aros.

*Gofal amserol*

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y sawl a oedd wedi profi oedi nad oeddent wedi aros yn hir iawn. Disgrifiodd y staff y broses o hysbysu cleifion pe byddai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn agos at fynedfa'r practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng fel bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Roedd neges peiriant ateb y practis yn cynnwys gwybodaeth addas.

*Cadw'n iach*

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cydnabod bod angen hybu iechyd er mwyn cefnogi llesiant eu cleifion. Roedd amryw daflenni a phosteri yn hybu iechyd y geg a llesiant cyffredinol. Roedd digonedd o ddeunydd darllen ar ofalu am ddannedd plant. Dangosodd holiaduron a sgyrsiau â chleifion eu bod yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth.

*Gofal unigol*

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dangosodd hyn fod y practis yn cydnabod amrywiaeth ei gleifion a'i fod wedi ystyried ei gyfrifoldebau yn unol â deddfwriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Roedd mynediad da i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd pob ystafell driniaeth yn hygyrch ac roedd lifft i'r llawr uchaf. Roedd pedwar toiled at ddefnydd y cleifion, ac un ohonynt yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gasglu adborth gan gleifion. Gwelwyd llyfr a chofnod cwynion ac roedd tystiolaeth bod sylwadau llafar yn cael eu nodi'n briodol.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig gweladwy ynghylch cofnodi cwynion ar gael yn y practis ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat, ac roedd taflenni ar gael yn hawdd yn y mannau aros.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd diogel a'u bod yn cael eu harchwilio a'u cynnal a chadw'n briodol.Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod eu bod yn ddigon manwl ar y cyfan.**

*Cyfleusterau clinigol*

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Lleolir y practis mewn adeilad newydd sy'n amlwg yn cael ei gynnal a chadw ac sy'n lân a thaclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd yr adeilad wedi'i oleuo'n dda a'i wresogi'n briodol, ac roedd cyfleusterau toiled ac ymolchi dwylo ar gael. Mae diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gwelsom fod y profion diwethaf o ddyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cwblhau yn 2010 ac roedd y profion nesaf wedi'u trefnu ar gyfer 18 Mawrth 2016. Gwnaethom ofyn i'r practis hysbysu AGIC unwaith i'r profion hyn gael eu cwblhau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid cwblhau profion dyfeisiadau cludadwy yn rheolaidd. Rhaid i'r practis hysbysu AGIC ar ôl cwblhau'r profion dyfeisiadau cludadwy.***

Roedd offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da, ond gwnaethom nodi bod un darn llaw digennwr uwchsonig yn unig i bob ystafell driniaeth. Gan fod rhaid sterileiddio'r darnau llaw ar ôl trin pob claf, gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ystyried cael mwy o ddarnau llaw fel y gallai drin mwy o gleifion.

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Gwelsom yr aelod o staff arweiniol yn gweithio yn yr ystafell ddadheintio, yn cwblhau ei rôl mewn modd rhagorol. Gwelsom dystiolaeth o fesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith sydd wedi'u seilio ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05):

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd detholiad mawr o offer ar gael a chawsant i gyd eu storio'n briodol a'u dyddio fel bod staff yn gwybod bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer triniaethau'r cleifion.

- Cadwyd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio bod offer wedi cael eu cynnal a chyflawnwyd archwiliadau rheolaidd o ddisgwyliadau rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau cyfredol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael. Roedd sinc benodol ar gyfer golchi dwylo.
- Roedd dau awtoclaf a gwelsom dystysgrifau a ddangosodd eu bod wedi cael eu profi er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.

Dywedodd perchennog y practis wrthym fod cynlluniau ar gyfer gwella’r prosesau dadheintio/sterileiddio offer erbyn mis Ionawr 2017. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn defnyddio dulliau glanhau cyn sterileiddio â llaw. Gwnaethom awgrymu eu bod yn ymchwilio i'r manteision o ychwanegu dadheintio uwchsonig at eu proses cyn sterileiddio a chynnwys hyn, os bydd angen, yn eu cynllun gwella arfaethedig.

Gwelsom gofnodion priodol ynghylch statws imiwnedd Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, sy'n dangos bod y practis wedi cymryd camau i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw’n beryglus. Storiwyd a chafwyd gwared ar wastraff clinigol, gan gynnwys dannedd a dynnwyd gydag amalgam, yn briodol.

*Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis. Cawsant eu cadw mewn modd priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer cyffuriau brys a chyfarpar brys yn cynnwys manylion priodol. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw'n ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol. Roedd y practis hefyd yn y broses o ddiweddaru'r hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer yr holl staff. Maent yn cynllunio hyn ar gyfer mis Mai/Mehefin eleni.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod gan ddigon o staff gymhwyster cymorth cyntaf.***

*Diogelu*

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi amddiffyn plant a pholisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, ond dim ond pedwar oedd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai hyfforddiant

ar ddiogelu oedolion agored i niwed ar gyfer yr holl staff yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y mis. Gwnaethom ofyn iddi hysbysu AGIC ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed.***

Roedd gwiriadau cyn dechrau gweithio ar waith ar gyfer yr holl gyflogeion a chwblhawyd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

*Offer radiograffeg*

Cawsom sicrwydd bod yr offer a'r broses o dynnu radiograffau (pelydrau-X) yn y practis hwn yn ddiogel. Proseswyd y pelydrau-X yn ddigidol. Gwelsom ddogfennau sy'n dangos bod y peiriannau pelydr-X yn newydd. Arddangoswyd cyfarwyddiadau'r peiriannau a nodwyd mannau dan reolaeth ar gyfer diogelwch staff a chleifion. Yn ogystal â hyn, gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant sy'n bodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (RhYÏ(DM)).

*Gofal effeithiol*

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir ac yn monitro'i gynnydd yn barhaus. Gwelwyd cofnodion o archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer pelydrau-X. Dywedwyd wrthym y cwblheir archwiliadau rheoli heintiau fel mater o drefn. Roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Roedd y staff clinigol yn cwblhau adolygiadau cymheiriaid ffurfiol, sy'n sicrhau y cedwir y safonau da presennol.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion ar gyfer pob deintydd yn y practis a chanfuom fod safon cadw cofnodion y practis yn dda iawn ar y cyfan. Cadwodd mwyafrif y deintyddion gofnodion cleifion da iawn, gyda chynlluniau triniaeth a chydsyniad ar waith. Buasem yn argymell y diweddarir hanesion meddygol yn y nodiadau ym mhob achos.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion yn y practis sicrhau y diweddarir hanes meddygol pob claf.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom fod gan y practis safonau eglur iawn o ran atebolrwydd a rheolaeth.Roedd perchennog y practis a rheolwr y practis yn rhannu'r rôl o arwain a rheoli.Roedd ffyrdd cyswllt da rhwng aelodau staff, a dosrannwyd tasgau mewn modd priodol.Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n rheolaidd.**

Perchennog y practis a rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd gan y practis dîm mawr o staff, yn cynnwys cyflogeion llawn amser a rhan amser. Roedd y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, roedd cyfathrebu mewnol da, a gwnaethant ddangos ymrwymiad i ofalu am gleifion. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus, yn hyderus, ac yn gymwys i gyflawni eu rolau.

Gwelsom gofnodion hyfforddi i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd cyfathrebu rhwng staff yn y practis yn dda. Dywedwyd wrthym yn ystod cyfweliadau staff fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis a bod yr holl staff yn derbyn gwahoddiad i fynychu sesiynau hyfforddi. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'u bod yn gallu trafod pryderon ac anghenion hyfforddi gyda'r perchennog a rheolwr y practis. Cwblhawyd gwerthusiadau ffurfiol gyda'r holl staff yn flynyddol ac roedd adolygiad ar brawf ar waith ar gyfer staff newydd.

Dywedwyd wrthym fod deintyddion lleol yn trefnu adolygiadau cymheiriaid bob tair blynedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd clinigol yn rheolaidd lle cytunwyd ar brotocolau.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Gwelwyd yswiriant indemniad priodol.

Gwelsom systemau ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod yr holl staff newydd yn derbyn cwrs sefydlu addas, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd yn y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u trefnu'n glir.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Beaufort Park yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i’r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Beaufort Park

## Dyddiad yr arolygiad: 2 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | *Ni nodwyd unrhyw welliannau* | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | Rhaid cwblhau profion dyfeisiadau cludadwy yn rheolaidd. | Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Cwblhawyd profion dyfeisiadau cludadwy ar 18 Mawrth 2016 – ni nodwyd unrhyw broblemau adeg yr arolygiad. Mae amserlen ailbrofi reolaidd bellach ar waith. Tystysgrif y prawf i'w hanfon at AGIC unwaith i'r practis ei derbyn. | Rachel Gidney – Rheolwr y Practis | Cwblhawyd |
| | Rhaid i'r practis sicrhau bod pob | CDC 4.3.3, | Cwblhawyd hyfforddiant diogelu | Rachel | Diwedd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| | aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu oedolion agored i niwed. | 8.5 | oedolion agored i niwed gan staff. | Gidney – Rheolwr y Practis | Mawrth 2016 |
| | Rhaid i'r practis sicrhau bod gan ddigon o staff gymhwyster cymorth cyntaf. | Iechyd a Gofal 7.1 | Hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin 2016 er mwyn i 12 aelod o staff ennill cymwysterau fel pobl cymorth cyntaf. | Rachel Gidney – Rheolwr y Practis | Bydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau ar 7 Mehefin 2016. |
| | Rhaid i'r deintyddion yn y practis sicrhau bod hanes meddygol pob claf wedi'i ddiweddaru. | CDC 4.1.1, 4.1.2 | Fel y trafodwyd yn ystod yr arolygiad, caiff hanesion meddygol pob claf eu gwirio ym mhob apwyntiad a'u dogfennu mewn nodiadau clinigol cyfrifiadurol. Gofynnodd arolygwyr AGIC i'r practis adolygu diweddariadau'r hanesion meddygol papur llawn er mwyn cynnwys y graddfeydd amser a argymhellwyd – hynny yw, y caiff hanesion meddygol eu cwblhau ar gyfer pob cwrs triniaeth newydd. Newidiadau bellach ar waith. | Russell Gidney – Pennaeth y Practis | Cwblhawyd |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | *Ni nodwyd unrhyw welliannau* | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **Rachel Gidney** |
| **Teitl:** | **Rheolwr y Practis** |
| **Dyddiad:** | **28 Mawrth 2016** |